# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-10-06(p.1)

**Dyddiad: Dydd Mercher 21 Mehefin 2006**
**Amser: 9.30am tan 12.30pm**
**Lleoliad: Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Ailstrwythuro'r heddlu - Strwythurau Democrataidd

#### Cefndir

1. Ym mis Medi 2005, gofynnwyd i’r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wneud adolygiad ar oblygiadau’r Adroddiad Cau’r Bwlch i Gymru. Cytunodd y Pwyllgor i fwrw ymlaen â hwn ac fe wnaethant gynhyrchu adroddiad ym mis Tachwedd 2005.

2. Ymateb yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd i Adroddiad y Pwyllgor ac i’r ymgynghoriad cyffredinol a wnaeth y Swyddfa Gartref gydag Awdurdodau’r Heddlu a’r Prif Gwnstabliaid oedd cyhoeddi mai’r opsiwn yr oedd ef yn ei ffafrio oedd i’r pedwar heddlu presennol yng Nghymru uno mewn un Heddlu Strategol Cymru Gyfan a gwnaeth ddatganiad ar ei fwriad i gynhyrchu deddfwriaeth ddrafft yn hynny o beth. Cytunodd yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd y byddai’r ddeddfwriaeth arfaethedig yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i effeithio ar faterion yn y dyfodol yn ymwneud ag atebolrwydd rhanbarthol a lleol a fyddai’n greiddiol i’r heddlu newydd arfaethedig. Eto cyfeiriodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y mater hwn i’r Pwyllgor i gasglu tystiolaeth a chyflwyno adroddiad ar strwythurau democrataidd a fyddai’n gweddu orau i ofynion Cymru.

#### Yr Adolygiad

3. Wrth wneud yr adolygiad hwn, yr oedd y Pwyllgor yn gorfod gweithio i amserlen dynn. Fodd bynnag, cafodd ymgynghoriadau ysgrifenedig a llafar niferus. Mae canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor wedi’u hamlinellu yn yr Atodiad ynghlwm.

#### Camau i’w cymryd

4. Y bwriad yw y bydd y Pwyllgor yn cynhyrchu adroddiad i’w drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Gorffennaf 2006. Felly gwahoddir Aelodau i roi cyngor ar fformat a chynnwys yr adroddiad hwn. Yn benodol, gofynnir i Aelodau ystyried y casgliadau a’r argymhellion ym Mhennod 3.

#### Argymhelliad

5. I’r Aelodau gytuno fod pennod yr adroddiad terfynol ar gasgliadau ac argymhellion yn adlewyrchu eu hystyriaeth hwy o’r materion hyn.

**Y Gwasanaeth Pwyllgorau**

**Mehefin 2006**